

AP THOMAS, DAFYDD RHYS (1912-2011), ysgolhaig Hen Destament

Enw: Dafydd Rhys ap Thomas
Dyddiad geni: 1912
Dyddiad marw: 2011
Priod: Menna ap Thomas (née Davies)
Plentyn: Marian ap Thomas
Plentyn: Keinion ap Thomas
Rhiant: Janette Spencer Thomas (née Spencer)
Rhiant: William Keinion Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolhaig Hen Destament
Maes gweithgaredd: Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Gwilym Henry Jones

Ganwyd Dafydd ap Thomas ar yr 28ain o Fai 1912 yn fab i'r **Parchedig W. Keinion Thomas** ai wraig Jeannete Thomas, Porthaethwy. Ef oedd yr ieuengaf o'u pum mab, Gwyn, Alon, Iwan a Jac, a chawsant chwaer ieuengach, Truda. Cafodd ei addysg gynradd yn y cartref, ei addysg uwchradd yn Ysgol Ramadeg Biwmares ac yna Coleg y Brifysgol, Bangor, lle y graddiodd gydag anrhydedd mewn Hebraeg ac Ieithoedd Semitaidd yn 1934. Graddiodd yn M.A. mewn Diwinyddiaeth o Goleg Mansfield, Rhydychen, ac enillodd B.D. yn Mhrifysgol Llundain. Yn 1937 aeth i Brifysgol Berlin gan fwriadu paratoi traethawd ar gyfer doethuriaeth, ond blwyddyn yn unig a arhosodd yno, gan fod cymylau rhyfel rhwng yr Almaen a Phrydain yn crynhoi ac yntau'n teiml atgasedd at y natsiaeth a welai'n tyfu.

Yn 1938 fe'i penodwyd yn ddarlithydd mewn Hebraeg yn ei hen goleg ym Mangor, ac yn y man yn Uwchddarlithydd ac yno yr arhosodd hyd ei ymddeoliad yn 1977. Ar ôl priodi gyda Menna Davies, merch y Parchedig George a Mrs Marianne Davies, Bryn Bowydd, Blaenau Ffestiniog ym 1940, ymgartrefodd y ddau yng nghyffiniau Bangor a Phorthaethwy. Cawsant ddau o blant, mab, Keinion, a merch, Marian. Treuliodd gyfnodau byr o Fangor - fwy nag unwaith yn ddarlithydd gwadd ym Mhrifysgol Toronto, ac am flwyddyn yn gwneud gwaith archaeolegol yng ngwlad Canaan.

Ar hyd y blynyddoedd cyhoeddodd draethodau ac astudiaethau mewn cylchgronau ysgolheigaidd. Ei gyfraniad pennaf i'w faes oedd cyfieithu astudiaethau pwysig o'r Almaeneg i'r Saesneg, cyfrol o draethodau Martin Noth (*The Laws and the Pentateuch and other studies*, 1961) ac un arall o draethodau Otto Eissfeldt. Ei gyfraniad gorchestol oedd cyfieithu o'r Norwyeg waith mawr ac arloesol Sigmund Mowinckel *The Psalms in Israel's worship* (2 gyfrol, 1962, a 2004). Cyhoeddodd hefyd *Primer of Old Testament text criticism* (1947, arg. diwygiedig 1964) a gyda Gwilym H. Jones, *Gramadeg Hebraeg y Beibl* (1976). Ef oedd golygydd y gyfres o lyfrau 'Beibl a Chrefydd' a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru rhwng 1976 a 1990. Bu'n Ysgrifennydd gweithgar a brwdfrydig i'r gymdeithas broffesiynol Brydeinig, Society for Old Testament Study o 1961 i 1972, a bu'n Llywydd iddi yn 1974. Cyhoeddwyd cyfrol deyrnged iddo dan olygyddiaeth Gwilym H. Jones yng nghyfres *Efyrdiau Beiblaidd Bangor* (rhif 2) yn 1977.

Byddai'n pregethu'n gyson ar y Suliau, a bu am gyfnod, 1944-51, yn Weinidog Lleyg i gapel Hiracl, Bangor. Gweithredodd am flynyddoedd, 1947-78, yn Ysgrifennydd Coleg Bala-Bangor. Yr oedd yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn 1979 a thraddododd anerchiad o'r gadair ar 'Yr Hen Destament Newydd'. Bu'n aelod ar hyd y blynyddoedd o banel cyfieithu'r Hen Destament i'r *Beibl Cymraeg Newydd*, ac am gyfnod yn Gadeirydd i'r panel.

Yn fyfyrwr ifanc yr oedd yn chwaraewr tennis brwdfrydig ac yn sgiwr penigamp. Yr oedd yn eithriadol fedrus ei law, yn gallu trin offer a pheiriannau, gan gynnwys edrych ar ôl ei gar heb alw am wasanaeth peiriannydd.

Bu farw ar Fai 19, 2011, a chladdwyd ei lwch gyda'i briod Menna (a fu farw yn Awst 2004) ym Mlaenau Ffestiniog.

Awdur

Y Parchedig Gwilym Henry Jones

Ffynonellau

Barn, Tachwedd/Rhagfyr 2011

Gwefan *Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 13893492

Dyddiad cyhoeddi: 2013-03-27

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Jones, G. H., (2013). AP THOMAS, DAFYDD RHYS (1912-2011), ysgolhaig Hen Destament. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c8-APTH-RHY-1912>

Y Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Woddi gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government